# Data Arolwg Manwerthu

Cyngor Sir Penfro

Arolwg Mis, Medi 2022

# Tudalen Gynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad a Chrynodeb | 3 |
| 2. | Data ar Ganol Trefi | 9 |
| 3. | Mapiau | 18 |

# Cyflwyniad a Chrynodeb

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys data a mapiau arolwg o Arolwg Canol Trefi Sir Benfro a gynhaliwyd ym mis Medi 2022. Gwnaed arolwg o ganol y trefi canlynol:

- Abergwaun
- Hwlffordd
- Aberdaugleddau
- Arberth
- Penfro
- Doc Penfro

Sylwch mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) a gynhaliodd yr arolwg o ganol trefi yn nhiriogaeth ei awdurdod cynllunio. Ychwanegwyd y rhain at yr adroddiad hwn, gan eu hamlygu mewn llwyd. Gwnaed arolwg APCAP ym mis Mehefin 2022).

Canolbwyntiodd yr arolwg ar yr eiddo o fewn terfynau dynodedig canol trefi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Benfro.  Caiff y terfynau hyn eu dangos yn y mapiau yn adran 3 o’r adroddiad hwn.

Mae’r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a chynhaliwyd ymgynghoriad cyn adneuo rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, o ganlyniad i bandemig COVID-19 ac yn sgil cyhoeddi canllawiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol ym mis Ionawr 2021, mae angen ailasesu nifer o safleoedd dyranedig yn CDLl Adnau 2. Ni fydd yr awdurdod mewn sefyllfa i wybod pa safleoedd y gellir eu cadw o fewn y cynllun hyd nes y daw rhagor o wybodaeth i law a bod gwaith ymchwil ychwanegol yn cael ei gynnal. Bydd oedi i amserlen CDLl 2 a bydd cytundeb cyflawni diwygiedig yn cael ei baratoi, a fydd yn cynnwys dychwelyd i gam y cynllun adnau. Bydd ail gynllun adnau yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn y dyfodol, ond mae'r amseru yn ansicr ac yn ddibynnol ar ryddhau gwybodaeth a chanlyniadau ymchwil. Cynigiwyd newidiadau i bolisi manwerthu a therfynau manwerthu a chynigwyd dynodiadau fel rhan o’r ymgynghoriad ar y cynllun adnau, a bydd unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yn destun ymgynghoriad fel rhan o ymgynghoriad yr ail gynllun adnau.

# Effaith Covid-19

Cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 yn bandemig byd-eang ar 11 Mawrth 2020. Yn dilyn y dyddiad hwn, bu rhaid i nifer o wasanaethau manwerthu a lletygarwch nad oedd yn hanfodol gau yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2020 a mis Awst 2021. Cynhaliwyd yr arolwg manwerthu ar gyfer eleni ym mis Medi 2022, sef dros 12 mis ers i unrhyw gyfyngiadau o ran agor fod mewn grym

## Casglu gwybodaeth

Casglwyd yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob eiddo masnachol:

- Os oedd y llawr daear yn cael ei ddefnyddio a’i peidio
- Dosbarth defnydd y llawr daear gan ddefnyddio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y newidiwyd).

Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr crynswth ar gyfer yr holl unedau manwerthu.

Ar gyfer eiddo gwag, gwnaed chwiliadau dilynol o ffeiliau cynllunio hanesyddol a defnyddiwyd arolygon blaenorol i benderfynu’r dosbarth defnydd hysbys diwethaf, lle bo hynny’n bosibl.

Mae’r tablau yn yr adran ddadansoddi’n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

**Defnyddiau Dosbarth A:**

Sawl eiddo a nodwyd fel A1, A2 neu A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.

- Defnyddiau A1 yw siopau o bob math, gan gynnwys archfarchnadoedd a warysau manwerthu. Mae defnyddiau A1 hefyd yn cynnwys trinwyr gwallt a bariau brechdanau (heblaw’r rhai sy'n gwerthu bwyd poeth) a rhai ystafelloedd arddangos.
- Defnyddiau A2 yw’r rhai sy'n cynnig gwasanaethau ariannol a phroffesiynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, gwerthwyr tai a swyddfeydd betio. Gwnaethpwyd diwygiad i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yng Nghymru[1] ym mis Hydref 2022 sy'n hepgor swyddfeydd betio o Ddosbarth Defnydd C2 ac yn gosod Siopau Betio yn y categori Sui Generis.
- Defnyddiau A3 yw mannau gwerthu bwyd a diod, gan gynnwys tai bwyta, bariau, tafarnau a phrydau parod.[2]

**Math o eiddo Dosbarth A:**

Mae dadgyfuno’r unedau hynny yn nosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3 yn helpu i roi darlun mwy eglur o’r math o wasanaeth sy’n cael ei ddarparu gan yr uned honno. Yn gyffredinol mae unedau A1 o natur gymharu neu gyfleuster; fodd bynnag mae rhai defnyddiau A1 yn cynnig gwasanaethau (fel triniwr gwallt

---

[1] Daeth Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022 i rym ar 20 Hydref 2022. Gwnaed newidiadau hefyd i Anheddau Dosbarth defnydd C3, a ddiffinnir fel yr unig neu brif breswylfa. Ychwanegodd y diwygiad Anheddau Dosbarth Defnydd C5, sydd heb fod yn unig breswylfa neu’n brif breswylfa, a Dosbarth Defnydd C6: Gosodiadau tymor byr.

[2] Sylwch fod y dosbarth defnydd A3 wedi cael ei newid eto yn Lloegr; fodd bynnag, nid yw’r newid hwn yn berthnasol yng Nghymru.

neu swyddfa bost). Yn gyffredinol mae dosbarthiadau defnydd A2 ac A3 o natur gwasanaeth. Rhannwyd y mathau o unedau fel a ganlyn:

- Uned gymharu: Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur barhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel dillad, electroneg, cerddoriaeth neu lyfrau.
- Uned gyfleus: Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur amharhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel bwyd neu bethau ymolchi.
- Uned wasanaeth: Yr unedau hynny sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Gwasanaethau yw'r rhain fel trinwyr gwallt, siopau betio neu werthwyr tai.

## Crynodeb o ddata'r arolwg

Mae nifer yr unedau gwag yn nosbarth A wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yng nghanol pob tref, ar wahân i Aberdaugleddau sydd heb newid. Gostyngodd canran yr unedau gwag yn nosbarth A 4% neu 5% yng nghanol trefi Abergwaun, Hwlffordd, Marina Aberdaugleddau, Arberth, Penfro a Doc Penfro.

Mae cyfraddau'r unedau gwag yn parhau yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru[3] yn Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau a Doc Penfro. Mae cyfradd yr unedau gwag yng nghanol tref Penfro yn is na'r gyfartaledd yng Nghymru ar gyfer Chwarter 3.2022. Mae cyfradd yr unedau gwag yn Arberth a Marina Aberdaugleddau yn sylweddol is na'r gyfradd gyfartalog yng Nghymru.

Yng nghanol tref Abergwaun, gostyngodd cyfradd yr unedau gwag eiddo Dosbarth A o 22% yn 2021 i 17% yn 2022. Agorwyd The Old Factory Shop yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd ag arwynebedd manwerthu sylweddol ar y Stryd Fawr. Cofnododd yr arolwg manwerthu fod nifer fach o unedau annibynnol wedi agor yng nghanol tref Abergwaun.

Roedd gostyngiad o naw uned yn yr unedau gwag Dosbarth A yng nghanol tref Hwlffordd gyda 21% o unedau gwag yn 2022. Hwlffordd sydd â'r nifer cyffredinol mwyaf o unedau gwag ym mhob dosbarth defnydd, gyda chyfanswm o 58 uned wag yng nghanol y dref. Mae ystod o siopau wedi cau yng nghanol tref Hwlffordd, yn rhannol oherwydd dirywiad parhaus y stryd fawr, gyda siopau cenedlaethol megis New Look yn cau a Mountain Warehouse yn cael ei hadleoli i Barc Manwerthu Llwynhelyg. Bu cynnydd cyffredinol yn nifer yr adeiladau yn nosbarth A3 (Bwyd a Diod) yn y dref a gostyngiad bach yn nefnyddiau A1 (Manwerthu) ac A2 (Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol.)

[3]Gwelwyd cyfradd gyfartalog o 16.6% ar gyfer unedau gwag canol trefi yng Nghymru yn ystod Chwarter 3 2022 (Consortiwm Manwerthu Cymru).

Cofnododd canol tref Aberdaugleddau 28 o Unedau gwag yn Nosbarth A yng nghanol y dref, ffigwr nad oedd wedi newid ers arolwg 2021. Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 29% i 30% yng nghyfradd yr unedau gwag yn nosbarth A oherwydd y gostyngiad cyffredinol yn nifer yr unedau yn nosbarth A (o ganlyniad i Siopau Betio yn cael eu symud o ddosbarth defnydd A i'r categori Sui Generis). Canol tref Aberdaugleddau sydd â'r gyfradd uchaf o unedau gwag yng nghanol trefi Sir Benfro ac mae'n sylweddol uwch na'r gyfartaledd cenedlaethol. Gallai hyn fod yn rhannol o ganlyniad i lwyddiant Marina Aberdaugleddau. Mae trosiant wedi bod o ran cau ac agor unedau annibynnol bach.

Ni chofnododd Marina Aberdaugleddau unrhyw unedau gwag am y tro cyntaf ers i'r arolwg gael ei gynnal. Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos cynnydd ym mhedwar o ddefnyddiau Manwerthu A1. Mae’n amlwg fod nifer wedi manteisio ar yr adeiladau a oedd ar gael ym Marina Aberdaugleddau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, pan wnaeth arolwg manwerthu 2020 gofnodi 8 uned wag. Gallai hyn fod yn rhannol o ganlyniad i westy newydd yn cael ei agor yn 2022.

Mae canol tref Arberth yn parhau i ffynnu, gyda nifer y lleoedd gwag yn nosbarth A wedi gostwng o 8 uned i 4 uned. Cofnododd y dref gyfradd o 5% o unedau gwag yn Nosbarth A. Ers y cynhaliwyd Arolwg Manwerthu 2021, mae Cwrt Bwyd Hwb wedi agor ac mae gan canol tref Arberth nifer fawr o siopau annibynnol o hyd. Mae canol tref Arberth yn boblogaidd ac yn denu pobl leol yn ogystal â thwristiaid.

Mae canol tref Penfro wedi gweld y gyfradd o unedau gwag yn gostwng o 19% i 15%, gyda chyfanswm o 16 o unedau Dosbarth A yn wag. Cafwyd trosiant ymysg busnesau newydd, yn enwedig yn nosbarth defnydd Manwerthu A1.

Mae cyfradd yr unedau gwag yn Noc Penfro wedi gostwng o 24% i 19%, a cheir 20 o unedau gwag yn nosbarth A.

Yr unig dref i gofnodi gostyngiad yn nifer yr unedau siopau cymharol yng nghanol y dref oedd Hwlffordd, gyda threfi eraill yn parhau yr un fath, neu wedi profi cynnydd yn nifer y siopau cymharol. Ni effeithiwyd llawer ar lefel yr unedau cyfleuster ym mhob canolfan fanwerthu. Cynyddodd lefel yr unedau gwasanaeth yng nghanol pob tref heblaw am Aberdaugleddau a Marina Aberdaugleddau, gyda’r cynnydd mwyaf wedi’i gofnodi yn Abergwaun a Hwlffordd. Yn yr un modd ag a welwyd mewn arolygon blaenorol, mae gan lawer o ganol trefi Sir Benfro gyfran uwch na’r gyfartaledd cenedlaethol o unedau yn seiliedig ar wasanaeth. Mewn rhai achosion, mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd twristiaeth i ganol tref ac yn dangos lefelau uchel o gaffis a thai bwyta. Mewn achosion eraill, mae’n arddangos canol tref sydd mewn trafferth gyda lefelau isel o siopau nwyddau cymharol.

Ni fu unrhyw newid ym mhresenoldeb siopau betio ar y stryd fawr (gweler Tabl 2.8). Gwelwyd cynnydd yn nifer y siopau elusen (gweler Tabl 2.9) a chynnydd yn nifer y siopau trin gwallt, barbwyr a salonau harddwch (gweler Tabl 2.10). Mae nifer y siopau dillad yn parhau i ostwng ar draws canol y trefi.

Darparodd Astudiaeth Manwerthu Rhanbarth De-orllewin Cymru (2017) ddadansoddiad o gryfderau a gwendidau cymharol canol trefi Sir Benfro, ar sail arolwg manwerthu 2016, ymweliadau ymgynghorwyr â chanol y trefi, ac arolwg aelwydydd dros y ffôn.  Mae'r arolwg yn awgrymu bod y dadansoddiad hwn o gryfderau a gwendidau cymharol canol trefi Sir Benfro yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae dylanwadau ychwanegol ar feddiannaeth unedau yng nghanol trefi, ac eithrio COVID-19, yn cynnwys effaith Brexit, y gostyngiad ym mhresenoldeb banciau a chymdeithasau adeiladu ar y stryd fawr, a strategaeth genedlaethol rhai manwerthwyr mawr, gan gynnwys gostyngwyr a manwerthwyr ffasiwn. Mae siopau ddillad cadwyn cenedlaethol wedi parhau i gau yn Hwlffordd, a dybir i fod o ganlyniad i ddirywiad parhaus y stryd fawr a thwf siopa ar-lein.

Mae polisi CDLl GN.12 'Datblygu Canol Trefi' yn mynnu nad yw datblygiadau arfaethedig yn creu crynodiad o fwy na thraean o ddefnyddiau (manwerthu) nad ydynt yn A1 o fewn prif ffryntiad.  Mae'r arolwg manwerthu yn dangos bod y canolfannau manwerthu canlynol â llai na dau draean o ddefnyddiau A1 yn y prif ffryntiad: Abergwaun, Arberth a Phenfro. Pan gaiff defnyddiau A1 gwag hefyd eu diddymu, mae llai na dau draean o brif ffryntiadau'r canol trefi canlynol yn unedau A1 mewn defnydd: Abergwaun, Hwlffordd, Arberth, Penfro a Doc Penfro.  Mae'n annisgwyl bod Arberth, sy'n ganol tref poblogaidd sy'n perfformio'n dda, â llai na dau draean o ddefnyddiau A1 yn y brif ardal fanwerthu.  Mae hefyd yn ddiddorol bod cyfradd meddiannaeth uchel o 80% ymysg unedau defnydd A1 mewn defnydd ym mhrif ardal fanwerth canol tref Aberdaugleddau, ac eto canol tref Aberdaugleddau sydd â'r gyfradd gyffredinol uchaf o unedau gwag yn Sir Benfro (gweler Tabl 2.7).

## Polisi Cynllunio Manwerthu

Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd yr awdurdod Nodyn Ymgynghorol Interim ar Ddatblygu yng Nghanol Trefi sy'n darparu canllawiau ar gymhwyso polisi cynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yng nghanol trefi. Ers i Gynllun Datblygu Lleol Sir Benfro gael ei fabwysiadu ym mis Chwefror 2013, bu newid sylweddol yn sefyllfa'r cynllun datblygu yn sgil cyhoeddi Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021). Mae polisi cynllunio cenedlaethol hefyd wedi'i ddiweddaru ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021) a Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Datblygu Masnachol (Tachwedd 2016).  Mae Cymru'r Dyfodol a pholisi cynllunio cenedlaethol yn defnyddio dull mwy caniataol er mwyn cefnogi canol trefi aml-swyddogaethol a bywiog. Mae'r Nodyn Cynghori Interim yn cyfleu meysydd lle nad yw polisi'r CDLl yn cydymffurfio â Chymru'r Dyfodol a pholisi cynllunio cenedlaethol.  Y ddau brif faes polisi yw fel a ganlyn;

Mae polisi CDLl GN.12 Datblygu Canol Tref (maen prawf 2) yn ceisio cyfyngu ardaloedd prif ffryntiadau ar gyfer defnyddiau manwerthu A1, gan ganiatáu dim mwy na thraean o ddefnyddiau nad ydynt yn nosbarth A1. Dengys Tabl 2.5 isod fod canol trefi Abergwaun, Arberth a Phenfro â llai na dwy ran o dair o unedau defnydd A1 yn y prif ardaloedd ffryntiadau manwerthu. Pan ddiystyrir eiddo gwag hefyd, mae llai na dwy ran o dair o'r brif ardal fanwerthu yn Hwlffordd a Doc Penfro yn nosbarth defnydd A1 mewn defnydd. Mae Polisi 6 Cymru'r

- Dyfodol yn mabwysiadu dull gwneud 'Canol Tref yn flaenoriaeth' er mwyn cefnogi cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd yng nghanol trefi. Wrth wneud penderfyniadau, rhoddir cryn bwys ar Gymru'r Dyfodol gan mai hwn yw'r polisi cynllun datblygu diweddaraf i gael ei fabwysiadwyd er mwyn cefnogi canol trefi aml-swyddogaeth.
- Nid yw Polisi CDLl GN.12 Datblygu Canol Tref (maen prawf 4) yn caniatáu newid defnydd i ddefnydd preswyl (Dosbarth Defnydd C3) ar lawr daear mewn prif ffryntiad manwerthu na ffryntiad eilaidd. Mae Cymru’r Dyfodol yn datgan bod "canol trefi nid yn unig yn addas ar gyfer datblygiadau amhreswyl ond yn lleoliad priodol ar gyfer cartrefi newydd” (cyfiawnhad rhesymegol i bolisi 6, tudalen 71). Mae'r nodyn cyfarwyddyd interim yn nodi y bydd defnyddiau preswyl yn parhau i gael eu cyfyngu ar y llawr daear mewn prif ardaloedd manwerthu, ac efallai y bydd defnyddiau preswyl yn cael eu hystyried yn briodol ar lawr daear mewn ardaloedd manwerthu eilaidd.

# Data ar Ganol Trefi 2022

## 2.1 Nifer yr unedau Dosbarth A

**A1:** Defnyddiau A1 yw siopau o bob math, gan gynnwys archfarchnadoedd a warysau manwerthu. Mae defnyddiau A1 hefyd yn cynnwys trinwyr gwallt a bariau brechdanau (heblaw'r rhai sy'n gwerthu bwyd poeth) a rhai ystafelloedd arddangos.

**A2:** Defnyddiau A2 yw'r rhai sy'n cynnig gwasanaethau ariannol a phroffesiynol i aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, gwerthwyr tai

**A3**: Defnyddiau A3 yw mannau gwerthu bwyd a diod, gan gynnwys tai bwyta, bariau, tafarnau a phrydau parod

| Tref | A1 mewn defnydd | A2 mewn defnydd | A3 mewn defnydd | Dosbarth A cymysg mewn defnydd | Gwag Dosbarth A | Cyfanswm Dosbarth A | % unedau gwag Dosbarth A | Cyfanswm yr unedau gwag pob defnydd heblaw preswyl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 44 | 10 | 22 | 2 | 16 | 94 | 17% | 20 |
| Hwlffordd | 97 | 37 | 31 | 1 | 45 | 211 | 21% | 58 |
| Aberdaugleddau | 41 | 9 | 14 | 2 | 28 | 94 | 30% | 33 |
| Marina Aberdaugleddau | 16 | 0 | 8 | 0 | 0 | 24 | 0% | 0 |
| Arberth | 47 | 9 | 22 | 2 | 4 | 84 | 5% | 5 |
| Penfro | 53 | 15 | 22 | 2 | 16 | 108 | 15% | 26 |
| Doc Penfro | 57 | 15 | 12 | 0 | 20 | 104 | 19% | 22 |
| Dinbych y Pysgod | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 11 | 184 | 6% | Dim dadansoddiad ar gael |
| Saundersfoot | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 0.5 | 66 | 1% | Dim dadansoddiad ar gael |

| Tref | A1 mewn defnydd | A2 mewn defnydd | A3 mewn defnydd | Dosbarth A cymysg mewn defnydd | Gwag Dosbarth A | Cyfanswm Dosbarth A | % unedau gwag Dosbarth A | Cyfanswm yr unedau gwag pob defnydd heblaw preswyl |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tyddewi | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 3 | 60 | 5% | Dim dadansoddiad ar gael |
| Solfach | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 1 | 14 | 7% | Dim dadansoddiad ar gael |
| Trefraeth | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 0 | 29 | 0% | Dim dadansoddiad ar gael |

Sylwch:

- Mae'r data yn berthnasol i unedau llawr daear yn unig.
- Dim dadansoddiad ar gael: Arolwg Parc Cenedlaethol dyddiedig Mehefin 2022
- Cyfradd yr unedau gwag yng Nghanol Trefi Cymru oedd 16.6 yn ystod Chwarter 3 2022 (Consortiwm Manwerthu Cymru).
- Mae 0.5 yn dynodi bod eiddo wedi’i isrannu.

## 2.2 Arwynebedd llawr daear unedau Dosbarth A (crynswth m20 2022

Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr crynswth ar gyfer yr holl unedau manwerthu.

| **Arwynebedd llawr** | **A1 arwynebedd llawr mewn defnydd** | **A2 Arwynebedd llawr mewn defnydd** | **A3 Arwynebedd llawr mewn defnydd** | **Dosbarth A cymysg mewn defnydd** | **Unedau gwag dosbarth A** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 7775 | 1052 | 3187 | 404 | 2159 | 14577 |
| Hwlfforddd | 17944 | 5579 | 4460 | 141 | 6914 | 35038 |
| Aberdaugleddau | 5310 | 1152 | 2261 | 603 | 3924 | 13250 |
| Marina Aberdaugleddau | 1210 | 0 | 724 | 0 | 0 | 1934 |
| Arberth | 4360 | 580 | 3049 | 1035 | 372 | 9396 |
| Penfro | 7227 | 2005 | 4317 | 359 | 3307 | 17215 |
| Doc Penfro | 10491 | 2129 | 1356 | 0 | 2675 | 16651 |
| Dinbych-y-pysgod | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 1887 | - |
| Saundersfoot | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 49 | - |
| Tyddewi | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 240 | - |
| Solfach | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 155 | - |
| Trefdraeth | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | Dim dadansoddiad ar gael | 0 | - |

**Nodyn:**

- Dim dadansoddiad ar gael: Arolwg Parc Cenedlaethol dyddiedig Mehefin 2022

## 2.3 Math o unedau Dosbarth A 2014-2022 A. Niferoedd unedau

### Cymharol (mewn defnydd)

**Uned gymharu:** Yr unedau hynny sy’n gwerthu cynhyrchion o natur barhaol i’r cyhoedd. Cynhyrchion yw’r rhain fel dillad, electroneg, cerddoriaeth neu lyfrau.

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Cymharu (mewn defnydd)** | 39 | 94 | 30 | 8 | 42 | 34 | 48 |
| **2016 Cymharu (mewn defnydd)** | 35 | 103 | 30 | 9 | 40 | 35 | 45 |
| **2018 Cymharu (mewn defnydd)** | 32 | 90 | 34 | 9 | 40 | 33 | 38 |
| **2019 Cymharu (mewn defnydd)** | 32 | 91 | 31 | 9 | 39 | 33 | 37 |
| **2020 Cymharu (mewn defnydd)** | 29 | 80 | 29 | 8 | 35 | 33 | 36 |

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021 Cymharu (mewn defnydd)** | 30 | 74 | 26 | 7 | 36 | 30 | 36 |
| **2022 Cymharu (mewn defnydd)** | 30 | 70 | 29 | 12 | 35 | 34 | 37 |

**Cyfleustra (Mewn defnydd)**

**Uned Cyfleustra**: Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur amharhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel bwyd neu bethau ymolchi.

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlfforddd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Cyfleustra (Mewn defnydd)** | 4 | 2 | 3 | 0 | 4 | 4 | 1 |
| **2016 Cyfleustra (Mewn defnydd)** | 4 | 2 | 3 | 0 | 4 | 3 | 1 |
| **2018 Cyfleustra** | 4 | 3 | 3 | 0 | 4 | 6 | 5 |

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(Mewn defnydd)** | | | | | | | |
| **2019 Cyfleustra (Mewn defnydd)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2020 Cyfleustra (Mewn defnydd)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2021 Cyfleustra (Mewn defnydd)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2022 Cyfleustra (Mewn defnydd)** | 5 | 3 | 2 | 0 | 5 | 6 | 5 |

**Gwasanaeth (mewn defnydd)**

**Uned gwasanaeth:** Yr unedau hynny sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd.  Gwasanaethau yw'r rhain fel trinwyr gwallt, siopau betio neu werthwyr tai.

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Gwasanaeth** | 43 | 106 | 47 | 11 | 42 | 63 | 45 |

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **(mewn defnydd)** | | | | | | | |
| **2016 Gwasanaeth (mewn defnydd)** | 45 | 100 | 49 | 9 | 43 | 65 | 44 |
| **2018 Gwasanaeth (mewn defnydd)** | 43 | 94 | 45 | 11 | 41 | 60 | 40 |
| **2019 Gwasanaeth (mewn defnydd)** | 43 | 91 | 46 | 11 | 40 | 59 | 41 |
| **2020 Gwasanaeth (mewn defnydd)** | 42 | 95 | 42 | 8 | 37 | 54 | 39 |
| **2021 Gwasanaeth (mewn defnydd)** | 37 | 88 | 38 | 14 | 36 | 51 | 40 |
| **2022 Gwasanaeth (mewn defnydd)** | 43 | 93 | 35 | 12 | 40 | 52 | 42 |

**Gwag**

Ar gyfer eiddo gwag, gwnaed chwiliadau dilynol o ffeiliau cynllunio hanesyddol a defnyddiwyd arolygon blaenorol i benderfynu'r dosbarth defnydd hysbys diwethaf, lle bo hynny'n bosibl.

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 gwag** | 9 | 42 | 21 | 0 | 2 | 7 | 17 |
| **2016 gwag** | 16 | 45 | 18 | 1 | 2 | 8 | 21 |
| **2018 gwag** | 19 | 38 | 23 | 2 | 5 | 9 | 28 |
| **2019 gwag** | 16 | 38 | 18 | 3 | 8 | 9 | 28 |
| **2020 gwag** | 17 | 44 | 17 | 8 | 10 | 15 | 26 |
| **2021 gwag** | 21 | 54 | 28 | 1 | 8 | 21 | 26 |
| **2022 gwag** | 16 | 45 | 28 | 0 | 4 | 16 | 20 |

**Cyfanswm Dosbarth A**

Sawl eiddo a nodwyd fel A1, A2 neu A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014 Cyfanswm Dosbarth A | 95 | 244 | 101 | 19 | 91 | 109 | 111 |
| 2016 Cyfanswm Dosbarth A | 100 | 250 | 101 | 19 | 90 | 113 | 111 |

| Blynyddol | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 2018 Cyfanswm Dosbarth A | 98 | 225 | 106 | 22 | 90 | 108 | 111 |
| 2019 Cyfanswm Dosbarth A | 93 | 223 | 98 | 23 | 90 | 107 | 112 |
| 2020 Cyfanswm Dosbarth A | 92 | 222 | 90 | 24 | 86 | 108 | 106 |
| 2021 Cyfanswm Dosbarth A | 94 | 220 | 95 | 22 | 86 | 108 | 107 |
| 2022 Cyfanswm Dosbarth A | 94 | 211 | 94 | 24 | 84 | 108 | 104 |

## 2.4 Arwynebedd llawr (crynswth m2) Dosbarth A 2022

Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr crynswth ar gyfer holl unedau manwerthu


| Tref | Arwynebedd llawr cymharu mewn defnydd | Arwynebedd llawr cyfleuster mewn defnydd | Arwynebedd llawr gwasanaeth mewn defnydd | Cymysg Dosbarth A (mewn defnydd) | Gwag | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 4999 | 1960 | 5054 | 404 | 2159 | 14576 |
| Hwlffordd | 14766 | 947 | 12270 | 141 | 6914 | 35038 |
| Aberdaugleddau | 3618 | 697 | 4963 | 47 | 3923/3609 | 13248 |
| Marina Aberdaugleddau | 906 | 0 | 1028 | 0 | 0 | 1934 |
| Arberth | 3219 | 775 | 3995 | 1035 | 372 | 9396 |
| Penfro | 5136 | 1001 | 7412 | 359 | 3307 | 17215 |
| Doc Penfro | 5252 | 3860 | 4863 | 0 | 2675 | 16650 |

## 2.5 Tabl yn dangos y newidiadau yng Nghyfraddau Unedau Gweigion Dosbarth A rhwng 2014 a 2022

| Tref | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abergwaun** | 10% | 9% | 16% | 15% | 20% | 17% | 19% | 22% | 17% |
| **Hwlffordd** | 9% | 17% | 18% | 25%<br>16% | 17% | 17% | 21% | 25% | 21% |
| **Aberdaugleddau** | 14% | 21% | 18% | 20% | 23% | 19% | 22% | 29% | 20% |
| **Marina Aberdaugleddau** | Amherthnasol | 0% | 5% | 19% | 9% | 13% | 33% | 5% | 0% |
| **Arberth** | 4% | 2% | 2% | 6% | 6% | 9% | 11% | 9% | 5% |
| **Penfro** | 9% | 6% | 7% | 12% | 10% | 9% | 15% | 19% | 26% |
| **Doc Penfro** | 10% | 15% | 19% | 22% | 26% | 25% | 24% | 24% | 22% |
| **Dinbych y Pysgod** | 7% | 3% | 4% | 5% | 7% | 4% | 4% | 8% | 6% |
| **Saundersfoot** | 3% | 8% | 6% | 5% | 2% | 0% | 3% | 5% | 1% |
| **Tyddewi** | 3% | 3% | 3% | 3% | 5% | 8% | 7% | 8% | 5% |
| **Solfach** | 8% | 0% | 0% | 8% | 0% | 7% | 7% | 7% | 7% |

| Tref | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trefdraeth** | 8% | 0% | 0% | 8% | 0% | 7% | 7% | 7% | 0% |
| **Cyfartaledd Cenedlaethol y DU** | 13.9% | 13.2% | 12.5% | 12.7% | 12.2% | 12.4% | 12.4% | 15.8% | 13.9% |

**2.6 Graff yn dangos Cyfraddau Unedau Gwag Dosbarth A ar gyfer 2019**




## 2.7 Tabl dangos canran y defnyddiau A1 mewn defnydd yn y prif ffryntiad manwerthu

| Canol tref | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau gyda defnydd A1 (mewn defnydd a gwag) | Canran prif ffryntiad manwerthu gyda defnydd A1 (mewn defnydd a gwag) | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau gyda defnydd A1 mewn defnydd | Canran y ffryntiad manwerthu cynradd gyda defnydd A1 mewn defnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abergwaun** | 414 | 183 | 44% | 136 | 33% |
| **Hwlfforddd** | 1127 | 749 | 66% | 568 | 50% |
| **Aberdaugleddau** | 200 | 179 | 90% | 141 | 71% |

| Canol tref | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau gyda defnydd A1 (mewn defnydd a gwag) | Canran prif ffryntiad manwerthu gyda defnydd A1 (mewn defnydd a gwag) | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau gyda defnydd A1 mewn defnydd | Canran y ffryntiad manwerthu cynradd gyda defnydd A1 mewn defnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Marina Aberdaugleddau** | 39 | 39 | 100% | 39 | 100% |
| **Arberth** | 468 | 270 | 58% | 259 | 55% |
| **Penfro** | 484 | 249 | 51% | 229 | 47% |
| **Doc Penfro** | 1043 | 759 | 73% | 649 | 62% |

## 2.8 Newidiau mewn siopau betio rhwng 2009 a 2022 (unedau mewn defnydd yn unig)

### Cyfanswm Siopau Betio

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Hwlffordd | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Aberdaugleddau | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Arberth | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Penfro | 1 | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Doc Penfro | 0 | 1 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 6 | 9 | 11 | 13 | 11 | 11 | 9 | 6 | 6 |

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefdraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Saundersfoot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Tyddewi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Dinbych y Pysgod | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Cyfanswm | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

## 2.9 Newidiadau mewn siopao elusen rhwng 2009 2 2022 (unedau mewn defnydd yn unig)

### Cyfanswm y siopao elusen

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 1 | 3 | 3 | 2 | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 |
| Hwlffordd | 8 | 9 | 12 | 11 | 11 | 11 | 9 | 9 | 12 |
| Aberdaugleddau | 3 | 3 | 4 | 3 | 4 | 7 | 4 | 3 | 3 |
| Arberth | 0 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Penfro | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Doc Penfro | 1 | 1 | 7 | 5 | 4 | 6 | 5 | 4 | 6 |
| Cyfanswm | 17 | 23 | 33 | 28 | 30 | 35 | 28 | 26 | 30 |

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefdraeth | - | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Saundersfoot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Solfach | - | - | 0 | 0 | 0 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Tyddewi | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Dinbych y Pysgod | 5 | 6 | 4 | 4 | 4 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | NAmherthnasol |
| Cyfanswm | 6 | 7 | 5 | 5 | 5 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

## 2.10 Newidiadau mewn safleoedd mewn defnydd fel barbwyr / trinwyr gwallt a salonau harddwch rhwng 2020 a 2022 (unedau mewn defnydd yn unig)

**Barbwyr / Trinwyr gwallt / Harddwch**

| Tref | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|
| Abergwaun | 7 | 6 | 8 |
| Hwlfforddd | 10 | 14 | 15 |
| Aberdaugleddau | 7 | 8 | 8 |
| Marina Aberdaugleddau | 2 | 1 | 0 |
| Arberth | 4 | 5 | 6 |
| Penfro | 8 | 10 | 11 |
| Doc Penfro | 9 | 11 | 14 |
| Cyfanswm | 47 | 55 | 62 |

## 3.Mapiau Canol Trefi (gwelwch yr Atodiadau)

Mae'r mapiau'n dangos dosbarth defnydd yr eiddo yng nghanol y dref ar adeg yr arolwg manwerthu.

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi awgrym o'r mathau o ddefnydd a allai fod ym mhob dosbarth defnydd.

**Siopau A1** – Siopau, warysau manwerthu, siopau trin gwallt, ymgymerwyr, asiantaethau teithio a thocynnau, swyddfeydd post (ond nid swyddfeydd didoli), siopau anifeiliaid anwes, bariau brechdanau, ystafelloedd arddangos, siopau hurio domestig, sychlanhawyr a threfnwyr angladdau.

**A2 Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol** - Gwasanaethau ariannol fel banciau a chymdeithasau adeiladu, gwasanaethau proffesiynol (ac eithrio gwasanaethau iechyd a meddygol) gan gynnwys asiantaethau eiddo a chyflogaeth.

**A3 Bwyd a diod -** Ar gyfer gwerthu bwyd a diod i'w bwyta ar y safle - bwytai, bariau byrbrydau a chaffis, sefydliadau yfed a siopau cludfwyd.

**B1 Busnes -** Swyddfeydd (ac eithrio'r rhai sy'n nosbarth A2), ymchwil a datblygu cynhyrchion a phrosesau, diwydiant ysgafn sy'n briodol ar gyfer ardal breswyl.

**B2 Diwydiant cyffredinol –** Defnydd ar gyfer proses ddiwydiannol heblaw'r rhai yn nosbarth B1 (ac eithrio dibenion llosgi, triniaeth gemegol, tirlenwi neu wastraff peryglus).

**B8 Storio neu ddosbarthu -** Defnydd ar gyfer storio neu fel canolfan ddosbarthu. Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys storfa awyr agored.

**C1 Gwestai -** Gwestai, lletyau a thai llety lle na ddarperir elfen sylweddol o ofal (ac eithrio hosteli).

**C3 Tai annedd,** a ddefnyddir fel unig breswylfa neu brif breswylfa


**C5 Tai annedd,** a ddefnyddir mewn modd ac eithrio fel unig breswylfa new brif breswylfa

**C5 Llety tymor byr**


**D1 Sefydliadau dibreswyl -** Clinigau, canolfannau iechyd, crèches, meithrinfeydd dydd, canolfannau dydd, ysgolion, orielau celf (ac eithrio celf sydd ar werth neu ar gael i'w llogi), amgueddfeydd, llyfrgelloedd, neuaddau, mannau addoli, neuaddau eglwys, llysoedd barn, canolfannau addysg a hyfforddiant dibreswyl.

**D2 Gwasanaeth a hamdden -** Sinemâu, neuaddau cerddoriaeth a chyngherddau, casinos, neuaddau bingo a dawns, pyllau nofio, lloriau sglefrio, campfeydd neu ardal ar gyfer chwaraeon a hamdden dan do neu awyr agored (ac eithrio chwaraeon modur, neu lle defnyddir drylliau).


**Sui Generis**- Nid yw rhai defnyddiau yn perthyn i unrhyw ddosbarth defnydd ac fe'u hystyrir yn 'ddefnydd unigryw'. Mae defnyddiau o'r fath yn cynnwys: siopau betio, theatrau, hosteli, iardiau sgrap, gorsafoedd petrol a siopau sy'n gwerthu a/neu arddangos cerbydau modur, golchdai, busnesau tacsis a chanolfannau difyrrwch


Town Centre Survey 2021/ Arolwg Canol Dref 2021
Fishguard/ Abergwaun
Scale (A4 Print) / Graddfa (Argraffiad A4) 1:2,847.550254
Use Class
A1
A1/A3
A2
A3
A3/C1
B1
B1/A2
B2
B8
C1
C3
D1
D1/A3
D2
Sui Gen
unknown
VACANT
N
S
E
W
Lota Park
Ysgol Glannau Gwaun
Car Park
Playground
Garage
Health Centre
Coastal Slope
Rock
Bank Terrace
MAIN STREET
PARK STREET
WALLIS STREET
Line of Posts
Chimneys
Sunday School
The Old School House
El Sub Sta
Rockwood
Sports Court
Path (um)
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

# Fishguard / Abergwaun 2022





© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.

Haverfordwest / Hwlffordd 2022




© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.


# Town Centre Survey 2021/ Arolwg Canol Dref 2021
## Milford Haven/ Aberdaugleddau

Scale (A4 Print) / Graddfa (Argraffiad A4) 1:2,316.843388




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.


Milford Haven / Aberdaugleddau 2022




© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.


# Town Centre Survey 2021/ Arolwg Canol Dref 2021
## Narberth/ Arberth

Scale (A4 Print) / Graddfa (Argraffiad A4) 1:2,098.527882





© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.

Narberth / Arberth 2022





© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.



Town Centre Survey 2021/ Arolwg Canol Dref 2021
Pembroke/ Penfro
Scale (A4 Print) / Graddfa (Argraffiad A4) 1:3,879.627059
Use Class
A1
A1/A3
A2
A3
A3/C1
B1
B1/A2
B2
B8
C1
C3
D1
D1/A3
D2
Sui Gen
unknown
VACANT
PEMBROKE
N
E
S
W
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.


# Pembroke / Penfro 2022




© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.


## Town Centre Survey 2021/ Arolwg Canol Dref 2021
## Pembroke Dock/ Doc Penfro

Scale (A4 Print) / Graddfa (Argraffiad A4) 1:2,790.57993




© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.

## Pembroke Dock / Doc Penfro 2022




© Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopio, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partion mewn unrhyw ffurf.